

# Hysbysiad Preifatrwydd Maen Hir

Dyddiad Creu: Medi 2024

Fersiwn: 1.0

# Hysbysiad Preifatrwydd Prosiect Maen Hir

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn disgrifio sut rydyn ni'n casglu, yn storio, yn defnyddio ac yn rhannu eich data a'ch gwybodaeth bersonol sy'n ymwneud â Phrosiect Maen Hir **(y Prosiect).** Er enghraifft, pan fyddwch yn gwneud y canlynol:

- Yn tanysgrifio neu'n ymateb i'n deunyddiau cyfathrebu ac ymgynghori, fel negeseuon e-bost marchnata, ffurflenni adborth, cylchlythyrau a hysbysiadau digwyddiadau
- Mynd i'n gwefan www.lightsourcebp.com/maenhir-cymraeg (Cymraeg) a www.lightsourcebp.com/maenhir-english (Saesneg)
- Llenwi holiadur budd tir.

## Pwy ydyn ni

Yr endid sy'n gyfrifol am brosesu data a gwybodaeth bersonol yw Lightsource bp sydd â'i swyddfa gofrestredig ar y 7fed Llawr, 33 Holborn, Llundain, y Deyrnas Unedig, EC1N 2HU.

Mae Lightsource bp yn gyfrifol am y data a'r wybodaeth bersonol rydyn ni'n eu casglu a'u prosesu at ein dibenion ein hunain. Rydyn ni wedi ymrwymo i gynnal diogelwch a phreifatrwydd y data a'r wybodaeth bersonol rydyn ni'n eu prosesu drwy gydol oes y Prosiect.

## Cysylltu â ni

Mae Lightsource bp wedi penodi Swyddog Diogelu Data sydd ar gael i ddelio ag unrhyw gwestiynau neu ymholiadau ynghylch sut rydyn ni'n prosesu eich data neu'ch gwybodaeth bersonol. I arfer eich hawliau, i wneud cwyn, neu i drafod ein harferion, defnyddiwch y manylion canlynol:

- **E-bost:** privacy@lightsourcebp.com

- **Post:** Swyddog Diogelu Data FAO, Level 7, 33 Holbourn, London, EC1N 2HU

## Pa ddata personol ydyn ni'n ei gasglu

Mae data neu wybodaeth bersonol yn adnabod unigolyn. Gallai hyn gynnwys gwybodaeth rydych chi'n ei darparu i ni'n uniongyrchol, ond hefyd gwybodaeth sy'n cael ei chasglu gan ffynonellau eraill gan gynnwys ffynonellau sydd ar gael i'r cyhoedd a darparwyr trydydd parti. Dyma'r mathau o ddata a gwybodaeth bersonol rydyn ni'n eu casglu a'u prosesu:

<u>Manylion Adnabod a Chyswllt:</u> enw cyntaf, cyfenw, enw'r cwmni, teitl, oedran, dyddiad geni, cyfeiriad post a statws, galwedigaeth, teitl swydd, cyfeiriad e-bost a rhifau ffôn, gwybodaeth am eich busnes (os yw'r safle arfaethedig yn effeithio arno) a ffotograffau.

<u>Barn ac Adborth:</u> gwybodaeth am eich perthynas â'r Prosiect (gan gynnwys a ydych chi'n breswylydd lleol, yn weithiwr lleol, yn gynrychiolydd etholedig ac ati), barn am y Prosiect.

<u>Data eiddo:</u> gwybodaeth am berchnogaeth eiddo.

<u>Data busnes:</u> gwybodaeth am fusnesau sy'n berchen ar yr eiddo, yn gweithredu ohono neu'n ei ddefnyddio.

<u>Data Ariannol:</u> manylion cyfrif banc, gwybodaeth am effeithiau ariannol y safle arfaethedig, gwerth eich buddiannau mewn tir.

<u>Data Technegol:</u> dynodwyr dyfeisiau fel cyfeiriad protocol rhyngrwyd (IP), enwau defnyddwyr neu ddynodwyr tebyg.

# Sut byddwn ni'n casglu eich data

Byddwn yn defnyddio dulliau gwahanol i gasglu data gennych chi ac amdanoch chi, gan gynnwys:

Data a gwybodaeth bersonol a ddarparwyd gennych chi: Mae'r data a'r wybodaeth bersonol rydyn ni'n eu casglu yn dibynnu ar gyd-destun eich rhyngweithio â ni, y dewisiadau rydych chi'n eu gwneud, a'r cynnyrch rydych chi'n eu defnyddio. Byddwn fel arfer yn casglu data a gwybodaeth bersonol yn uniongyrchol gennych chi drwy ein gwefan, wyneb yn wyneb mewn digwyddiad cymunedol, neu drwy ohebiaeth gennych chi, fel llythyrau neu negeseuon e-bost.

Trydydd partïon neu ffynonellau sydd ar gael yn gyhoeddus: Er mwyn gwella ein gallu i gysylltu â chi a chynnal a diweddaru ein cofnodion, efallai y byddwn yn cael gwybodaeth amdanoch chi gan ffynonellau eraill, fel cronfeydd data cyhoeddus, trydydd partïon sy'n ymwneud â'r Prosiect, datblygwyr, a chyflenwyr trydydd parti eraill. Rydyn ni hefyd yn casglu rhywfaint o'ch gwybodaeth gan drydydd partïon eraill, gan gynnwys cofnodion cyhoeddus fel Cofrestrfa Tir EF, Tŷ'r Cwmnïau, cofrestrfeydd ar-lein, gwefannau sefydliadau a gwybodaeth y gellir ei chael drwy chwilio'n gyffredinol ar y rhyngrwyd. Sylwch y gallwn gyfuno data personol rydyn ni'n ei chael gan ffynonellau eraill â data personol rydych chi'n ei roi i ni a data personol rydyn ni'n ei gasglu amdanoch chi.

Gwybodaeth a gesglir yn awtomatig: Rydyn ni'n casglu gwybodaeth benodol yn awtomatig pan fyddwch chi'n defnyddio neu'n ymweld â'n gwefan. Nid yw'r wybodaeth hon yn datgelu pwy ydych chi'n benodol (fel eich enw neu eich gwybodaeth gyswllt) ond gall gynnwys gwybodaeth am ddyfeisiau a defnydd, fel eich cyfeiriad IP, nodweddion eich porwr a'ch dyfais, eich system weithredu, eich dewisiadau iaith, URLs sy'n cyfeirio, enw'r ddyfais, gwlad, lleoliad, gwybodaeth am sut a phryd rydych chi'n defnyddio ein gwefan, a gwybodaeth dechnegol arall. Mae angen yr wybodaeth hon yn bennaf i gynnal diogelwch a gweithrediad ein gwefan, ac at ein dibenion dadansoddi ac adrodd mewnol. Fel llawer o fusnesau, rydyn ni hefyd yn casglu gwybodaeth drwy gwcis a thechnolegau tebyg, y gallwch ddarllen mwy amdanyn nhw yn ein Polisi Cwcis.

## Pam rydyn ni'n casglu eich data a'ch gwybodaeth bersonol

Mae'r tabl canlynol yn nodi pam rydyn ni'n prosesu eich data a'ch gwybodaeth bersonol, a'n sail gyfreithiol ar gyfer prosesu eich data personol, yn unol â Deddfwriaeth Diogelu a Phreifatrwydd Data berthnasol. Efallai y byddwn yn dibynnu ar fwy nag un sail gyfreithiol ar gyfer prosesu eich data personol yn dibynnu ar gyd-destun y gweithgaredd prosesu.

Byddwn ni ond yn defnyddio eich data a'ch gwybodaeth bersonol at y diben y maent yn cael eu casglu, oni bai ein bod yn credu'n rhesymol bod angen i ni eu defnyddio am reswm arall a bod y rheswm hwnnw'n cyd-fynd â'r diben gwreiddiol. Os bydd angen i ni ddefnyddio eich data a'ch gwybodaeth bersonol am ddiben heb gysylltiad, byddwn ni'n rhoi gwybod i chi ac yn egluro'r sail gyfreithiol sy'n caniatáu i ni wneud hynny.

| Diben | Sail Gyfreithiol | Categorïau Data Personol | Derbynwyr Trydydd Parti |
|---|---|---|---|
| **Cyfathrebu ac ymgynghori â chi ynghylch y Prosiect:** Pan fydd y Prosiect yn eich ardal chi, bydd ein tîm ymgysylltu â'r gymuned yn cyfathrebu â chi er mwyn rhoi gwybodaeth ychwanegol am y Prosiect, ac i gael eich adborth.<br><br>Pan fyddwn yn rhannu'r wybodaeth hon at ddibenion yr Adroddiad Ymgynghori, ni fyddwn yn rhannu eich data na'ch gwybodaeth bersonol. Bydd hyn wedi'i gyfyngu i'ch sylwadau, eich barn a'ch adborth yn unig.<br><br>Efallai y bydd gofyn i ni hefyd anfon hysbysiadau statudol atoch o dan Ddeddf Cynllunio 2008. | Mae'r broses hon yn angenrheidiol er mwyn cydymffurfio â'n rhwymedigaethau cyfreithiol neu mae'n cael ei chyflawni o dan ein buddiannau cyfreithlon. | • Enw<br>• Cyfeiriad e-bost<br>• Cyfeiriad, gan gynnwys cod post<br>• Oedran<br>• Perthynas â'r Prosiect (er enghraifft, preswylydd lleol, tirfeddiannwr, cynrychiolydd etholedig ac ati)<br>• Dewisiadau Cyswllt<br>• Sylwadau, Safbwyntiau ac Adborth | • Microsoft<br>• Salesforce<br>• Adapt IQ<br>• Ymgyngoriaethau ac Ymgynghorwyr Proffesiynol – Counter Context Limited<br>• Instinctif Partners<br>• Cyrff Llywodraethol<br>• Asiantaethau Cynllunio |
| **Gwneud gwaith Cyfeirnodi Tir, arolygu tir a gwerth/iawndal tir:** Pan fydd y Prosiect yn cael ei gynllunio, ac ar wahanol gamau yn ystod ac ar ôl y broses ymgeisio, rhaid i ni gynnal proses o'r enw cyfeirnodi tir, ar gyfer unigolion sy'n agos at y Prosiect, neu a allai fod â buddiant yn y tir fel unigolion sy'n berchen ar y tir neu'n ei rentu.<br><br>Daw gwybodaeth gan ffynonellau sydd ar gael i'r cyhoedd megis Cofrestrfa Tir EF, a thrwy ddosbarthu holiaduron.<br><br>Gellir cyhoeddi'r wybodaeth hon yn y Llyfr Gorchwyl sy'n cyd-fynd â'r cais ar gyfer y Prosiect. | Mae'r broses hon yn angenrheidiol i gydymffurfio â'n rhwymedigaethau cyfreithiol. | • Enw<br>• Cyfeiriad e-bost<br>• Cyfeiriad<br>• Dewisiadau Cyswllt<br>• Natur a gwerth eich buddiant yn y tir | • Microsoft<br>• Salesforce<br>• Ymgynghorwyr ac Ymgynghorwyr Proffesiynol – Ardent<br>• Cyrff Llywodraethol<br>• Asiantaethau Cynllunio |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am y Prosiect:** os ydych chi wedi gofyn am yr wybodaeth ddiweddaraf am ganlyniadau ymgynghoriad, neu ddatblygiadau a diweddariadau eraill am y Prosiect, byddwn yn cadw mewn cysylltiad â chi gan ddefnyddio'r dull sydd orau gennych chi. | Gwneir hyn o dan ein buddiannau cyfreithlon. | • Enw<br>• Cyfeiriad e-bost<br>• Cyfeiriad<br>• Dewisiadau Cyswllt | • Microsoft<br>• Salesforce |
| **Negodi cytundebau gydag unigolion y mae'r Prosiect yn effeithio arnynt:** lle bo angen, efallai y bydd angen cymryd rhan mewn trafodaethau â phobl y mae'r Prosiect yn effeithio arnynt, er mwyn caffael tir neu hawliau ganddynt. | Gwneir hyn o dan ein buddiannau cyfreithlon. | • Enw<br>• Cyfeiriad e-bost<br>• Cyfeiriad<br>• Dewisiadau cyswllt<br>• Manylion cyswllt y busnes<br>• Llofnodion<br>• Manylion banc<br>• Teitl swydd<br>• Sefydliad | • Microsoft<br>• Salesforce<br>• Adapt IQ<br>• Docusign<br>• Cetora Digital S.A (Brasil)<br>• Cwmnïau Cyfreithiol (mae'n amrywio yn ôl gwlad neu awdurdodaeth)<br>• Datasite |
| **Adolygu ac ymateb i'ch ymholiadau a'ch adborth:** Pan fyddwch yn cyflwyno ymholiad drwy ffurflen we ar-lein, caiff yr wybodaeth hon ei hadolygu gan aelod o'n tîm cymorth a'i throsglwyddo i'r adran berthnasol. | Gwneir hyn o dan ein buddiannau cyfreithlon er mwyn i ni allu ymateb i'ch ymholiad. | • Enw<br>• Manylion Cyswllt<br>• Gwybodaeth am yr ymholiad | • Microsoft<br>• Instinctif Partners |
| **Cydymffurfio â Cheisiadau Rheoleiddiol:** gan gynnwys gan asiantaethau'r llywodraeth, rheoleiddwyr a thrydydd partïon eraill sydd ag awdurdod cyfreithiol. | Mae'n angenrheidiol i gydymffurfio â dyletswydd gyfreithiol. | • Enw<br>• Manylion cyswllt y busnes | • Amrywiol |
| **Adrodd i'r Ysgrifennydd Gwladol, yr Arolygiaeth Gynllunio neu awdurdodau lleol ar yr ymgynghoriad:** Gall hyn olygu trosglwyddo eich data personol i'r partïon hynny, ac mewn rhai achosion, mae'n rhaid i ni gyhoeddi'r data fel rhan o broses gydsynio Deddf Cynllunio 2008.<br><br>Gellir gweld hysbysiad preifatrwydd yr Arolygiaeth Gynllunio yn https://www.gov.uk/government/publications/planning-inspectorate-privacy-notices/customer-privacy-notice | Mae'n angenrheidiol i gydymffurfio â dyletswydd gyfreithiol. | • Enw<br>• Cyfeiriad e-bost<br>• Cyfeiriad, gan gynnwys cod post<br>• Perthynas â'r Prosiect (er enghraifft, preswylydd lleol, tirfeddiannwr, cynrychiolydd etholedig ac ati)<br>• Dewisiadau Cyswllt<br>• Sylwadau, Safbwyntiau ac Adborth | • Cyrff Llywodraethol<br>• Asiantaethau Cynllunio<br>• Awdurdodau Lleol |

## Am faint byddwn yn cadw eich data a’ch gwybodaeth bersonol?

Dim ond am gyhyd ag y bo angen er mwyn cyflawni’r dibenion y cafodd eich data a’ch gwybodaeth bersonol eu casglu ar eu cyfer y byddwn ni’n eu cadw. Mae hyn yn cynnwys at ddibenion bodloni unrhyw ofynion cyfreithiol neu adrodd. Rydyn ni’n adolygu data personol fesul achos ac yn cofnodi’r cyfnod cadw ar gyfer pob un.

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau neu os ydych chi eisiau rhagor o wybodaeth am gadw eich data, cysylltwch â ni yn: privacy@lightsourcebp.com

## Rhannu eich Data a'ch Gwybodaeth Bersonol

Byddwn yn rhannu eich data a’ch gwybodaeth bersonol â darparwyr trydydd parti er mwyn galluogi’r busnes i weithredu a storio gwybodaeth yn ddiogel.

Efallai y byddwn yn rhannu eich data a’ch gwybodaeth bersonol â’n cynghorwyr proffesiynol, gan gynnwys ein swyddogion cyfeirnodi tir ac asiantau tir (Ardent), ein hymgynghorwyr ymgynghori a chyfathrebu (Counter Context Limited) a’n cynghorwyr cyfreithiol (Pinsent Masons LLP) at ddibenion y Prosiect. Efallai y byddwn hefyd yn rhannu eich data a’ch gwybodaeth bersonol â chyrff y llywodraeth ac asiantaethau gorfodi’r gyfraith (lle bo hynny’n ofynnol neu’n cael ei chaniatáu gan y gyfraith).

Mae “Trydydd Partïon” yn cynnwys darparwyr gwasanaeth Trydydd Parti (gan gynnwys contractwyr ac asiantau dynodedig) ac endidau eraill yn ein Grŵp (gan gynnwys Rhiant-gwmni Lightsource SPV 204 Limited, ac is-gwmnïau eraill Lightsource bp). Rydym yn defnyddio darparwyr trydydd parti ar gyfer gweithgareddau fel gwasanaethau cyfreithiol, cyfrifeg, gweinyddu a gwasanaethau TG.

Mae’n rhaid i’n holl ddarparwyr trydydd parti ac endidau eraill yn y Grŵp gymryd mesurau diogelwch priodol i ddiogelu eich data a’ch gwybodaeth bersonol yn unol â’n polisïau.

## Trosglwyddo Data Rhyngwladol

Fel sefydliad byd-eang sy’n defnyddio llawer o systemau sy’n arwain y diwydiant, mae data personol yn cael ei brosesu mewn gwledydd fel y DU, UDA ac Ewrop.

Pan fyddwn yn prosesu eich data a’ch gwybodaeth bersonol mewn gwledydd yr ystyrir nad oes ganddynt yr un amddiffyniad â’r Ddeddfwriaeth Diogelu Data a Phreifatrwydd berthnasol yn y wlad rydych yn byw ynddi, rydyn ni wedi rhoi mesurau priodol ar waith i sicrhau bod eich data a’ch gwybodaeth bersonol yn cael eu diogelu’n ddigonol bob amser. Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau neu os ydych chi eisiau rhagor o wybodaeth am y mesurau diogelu, cysylltwch â ni yn: privacy@lightsourcebp.com

## Diogelwch

Rydyn ni wedi rhoi mesurau diogelwch priodol ar waith i atal eich data personol rhag mynd ar goll yn ddamweiniol, cael ei ddefnyddio neu ei gyrchu heb awdurdod, neu ei addasu neu ei ddatgelu. Hefyd, rydyn ni’n gwneud yn siŵr mai dim ond y gweithwyr, yr asiantau, y contractwyr a’r trydydd partïon eraill hynny sydd ag angen busnes i wybod a dyletswydd o ran cyfrinachedd sy’n cael mynediad at eich data a’ch gwybodaeth bersonol.

Rydyn ni wedi rhoi gweithdrefnau ar waith i ddelio ag unrhyw amheuaeth o dorri diogelwch data personol a byddwn yn rhoi gwybod i chi ac unrhyw reoleiddiwr perthnasol am amheuaeth o'r fath pan fydd hynny’n ofynnol o dan y gyfraith.

Dim ond yn ôl ein cyfarwyddiadau y bydd Trydydd Partïon yn prosesu eich data a’ch gwybodaeth bersonol, a phan fyddant wedi cytuno i drin yr wybodaeth yn gyfrinachol a’i chadw’n ddiogel.

## Eich Hawliau

O dan Ddeddfwriaeth Diogelu Data a Phreifatrwydd perthnasol, mae gennych nifer o hawliau sy’n ymwneud â’ch data a’ch gwybodaeth bersonol. Efallai y byddwn yn gofyn i chi am fanylion adnabod cyn datgelu unrhyw ddata, gan fod angen i ni sicrhau ein bod ond yn datgelu gwybodaeth i’r sawl sydd â hawl i’w chael. Mae gennych chi hawl i'r canlynol:

- Cael gwybod am y data a’r wybodaeth bersonol sydd gennym amdanoch chi a’r hyn rydyn ni’n eu defnyddio ar ei gyfer. Rydyn ni’n bodloni’r gofyniad hwn drwy adolygu, diweddaru a rhoi mynediad i chi at yr Hysbysiad Preifatrwydd hwn yn rheolaidd.
- Mynediad at eich data a’ch gwybodaeth bersonol (sy’n cael ei alw’n “gais gwrthrych am gael gweld data” fel arfer). Mae hyn yn eich galluogi chi i gael copi o'r data a’r wybodaeth bersonol rydyn ni’n eu cadw amdanoch chi a gwneud yn siŵr ein bod yn eu prosesu’n unol â'r gyfraith.
- Cywiro’r data a’r wybodaeth bersonol rydyn ni’n eu cadw amdanoch chi. Mae hyn yn eich galluogi i gywiro unrhyw wybodaeth anghyflawn neu anghywir sydd gennym amdanoch. Rhowch wybod i ni am unrhyw newidiadau yn ystod eich perthynas waith â ni.
- Dileu eich data a’ch gwybodaeth bersonol. Mae hyn yn eich galluogi i ofyn i ni ddileu neu dynnu data a gwybodaeth bersonol, lle nad oes rheswm da dros barhau i’w phrosesu, gan gynnwys lle rydych chi’n tynnu caniatâd yn ôl, os ydyn ni’n defnyddio eich data personol a’ch gwybodaeth ar sail eich caniatâd. Mae gennych hefyd yr hawl i ofyn i ni ddileu eich data a’ch gwybodaeth bersonol os ydych chi wedi arfer eich hawl i wrthwynebu Prosesu.
- Gwrthwynebu prosesu eich data a’ch gwybodaeth bersonol fel a ganlyn:
  - pan fyddwn ni’n dibynnu ar fuddiant cyfiawn (neu rai trydydd parti) a phan fydd rhywbeth yn ymwneud â’ch sefyllfa benodol chi sy’n gwneud i chi ddymuno gwrthwynebu prosesu ar y sail hon;
  - pan fydd eich data a’ch gwybodaeth bersonol yn cael ei phrosesu at ddibenion marchnata uniongyrchol, mae gennych hawl i wrthwynebu ar unrhyw adeg i brosesu data personol amdanoch chi ar gyfer marchnata o’r fath.
- Cyfyngu ar brosesu eich data a’ch gwybodaeth bersonol. Mae hyn yn eich galluogi i ofyn i ni atal prosesu data a gwybodaeth bersonol amdanoch chi, er enghraifft os ydych am i ni gadarnhau ei chywirdeb, neu’r rheswm dros ei phrosesu.
- Cludadwyedd y data a’r wybodaeth bersonol a ddarparwyd gennych i ni. Mae hyn yn caniatáu i chi gael yr wybodaeth a’r data personol rydych chi wedi’u rhoi i ni neu i ni eu trosglwyddo i sefydliad arall.
- Tynnu caniatâd yn ôl ar unrhyw adeg, pan fyddwn yn prosesu eich data neu’ch gwybodaeth bersonol ar sail eich caniatâd yn unig. Ni fydd hyn yn effeithio ar gyfreithlondeb y prosesu a wnaed cyn i chi dynnu eich cydsyniad yn ôl.
- Peidio â bod yn destun penderfyniadau awtomataidd gan gynnwys proffilio, sy'n cynhyrchu effeithiau cyfreithiol neu effeithiau sylweddol tebyg sy'n berthnasol i chi. Er mwyn osgoi amheuaeth, nid yw Lightsource bp yn gwneud penderfyniadau awtomataidd o’r math hwn.
- Gwneud cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) yn y DU. Wedi dweud hynny, byddem yn gwerthfawrogi’r cyfle i fynd i’r afael yn gyntaf ag unrhyw bryderon sydd gennych yn uniongyrchol.

Sylwch: nid yw’r hawliau uchod yn berthnasol ym mhob sefyllfa, ond byddwn bob amser yn ceisio cyflawni eich cais, neu’n darparu gwybodaeth ynghylch pam na allwn ei gyflawni.

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am yr Hysbysiad Preifatrwydd hwn, neu sut rydyn ni’n delio â’ch data a’ch gwybodaeth bersonol, cysylltwch â’r Swyddog Diogelu Data yn privacy@lightsourcebp.com

Gallwch hefyd gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Swydd Gaer, SK9 5AF www.ico.org.uk.

## Newidiadau i'r Hysbysiad Preifatrwydd hwn

Bydd yr Hysbysiad Preifatrwydd hwn yn cael ei ddiweddaru o bryd i'w gilydd i adlewyrchu sut rydyn ni'n prosesu ac yn gofalu am eich data a'ch gwybodaeth bersonol.

Pan fydd unrhyw newidiadau sylweddol yn cael eu gwneud, byddwn yn rhoi gwybod i chi am hyn ar ein gwefan, neu drwy ddulliau cyfathrebu eraill fel e-bost, er mwyn i chi allu adolygu'r newidiadau a gwneud penderfyniad ar sail gwybodaeth ynghylch a ydych am arfer unrhyw rai o'ch hawliau.

Diweddarwyd Ddiwethaf: 9 Medi 2024